

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A
CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIUYD YN YR
YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE
COLWYN, NOS FAWRTH, 26^{AIN} 2015 AM 6.30 P.M.**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mrs S. Roy, (Maer y Dref)
Y Cynghorydd D. Porter, (Cadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, N. Bastow, Mrs L. Griffiths, Mrs M.
Jones, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, C. Wood

SWYDDOG: Mrs C J Earley (Clerc y Dref)

25/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Dirprwy Faer, y Cynghorydd J. Davies a'r Cynghorwyr Mrs L. Edwards, R. Foreman a C. Perry.

26/15 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2015-16:

Penderfynwyd yn unfrydol i ail-ethol y Cynghorydd D. Porter i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorydd Neil Bastow i fod yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor am 2015/16.

27/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

Atgoffwyd yr aelodau hefyd am yr angen iddynt gwblhau'r cofrestriad ffurfiol o gysylltiadau a fydd ar gael i'r cyhoedd trwy wefan y Cyngor. Mae'r ffurflenni ar gael gan y Clerc ar gais.

28/14 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28^{ain} Ebrill 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

29/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 452/14(d) - Parcio dros nos ar y Promenâd:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb gan y Cynghorydd B. Cossey yn cadarnhau bod CBS Conwy yn archwilio sut i ymdrin â'r broblem o barcio dros nos ar y Promenâd ac ym Mharc Eirias a Phorth Eirias.

Cyflwynodd y Clerc hefyd, copi o lythyr a anfonwyd gan y Cynghorydd B. Bagnall at y Prif Weithredwr, CBS Conwy, yn gofyn am eglurhad a fyddai'n bosibl weithredu para 14(1)(a) o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 ar gyfer y promenâd.

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ac i ddilyn y cais yn llythyr y Cynghorydd Bagnall gyda llythyr o'r Cyngor Tref at Swyddogion y Priffyrdd a'r Adran Gyfraith i holi os yw hyn yn berthnasol ac os nad yw, beth arall gellir ei wneud.

b. Cofnod 454/14 – Hysbysfyrdau:

Rhodddwyd adroddiadau gan yr aelodau am yr archwiliadau diweddar o hysbysfyrdau yn eu wardiau a chafodd y gofrestr ei ddiweddarau.

30/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- a.** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig i ymestyn y gwaharddiadau parcio ger y groesfan gyda phalmant cyffyrddol yn Ffordd Marine,.

Penderfynwyd cefnogi'r angen i ymestyn y gwaharddiadau parcio yn y man yma.

Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r peryglon a achoswyd gan gerbydau yn parcio yn rhy agos at gyffyrdd ac fe ofynnwyd ai mater i'r Heddlu neu'r gwardeiniaid lleol oedd gorfodi hyn.

Penderfynwyd ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd i holi pwy sy'n gyfrifol am orfodaeth leol mewn achos o barcio'n anghyfreithlon ger cyffyrdd (lle nad oes llinellau marcio yn ymddangos).

- b.** Cyflwynodd y Clerc copi o rybudd parthed cyfyngiadau ar gyflymdra arfaethedig ar Ffordd Abergele, er gwybodaeth.

Penderfynwyd nodi'r bwriad i ymestyn y cyfyngiad presennol o 40 m.y.a. ar Ffordd Abergele o Ffordd Highlands i gyfeiriad y dwyrain, hyd at ei gyffordd a'r A55 yn Llanddulas.

- c.** *Penderfynwyd derbyn y nodiadau o gyfarfod Fforwm CBS Conwy / Cyngorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 15 Ebrill.*

- ch.** Cyflwynodd y Clerc nodyn atgoffa am y digwyddiad Deffro i Lesiant sydd i'w gynnal ar 27^{ain} Mai yng Nghanolfan Hamdden Eirias ac fe anogwyd yr aelodau i fod yn bresennol os yn bosibl.

31/15 Llywodraeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc copi o fwletin diweddar Rheoli Adnoddau Naturiol

Penderfynwyd derbyn y bwletin a'i nodi.

32/15 Iechyd Cyhoeddus Cymru:

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth oddi wrth Bron Brawf Cymru am y rhaglenni sgrinio presennol yn ardal Bae Colwyn.

33/15 Darren Millar AC:

Cyflwynodd y Clerc diweddariad byr gan Darren Millar ar sut mae pethau yn symud ymlaen gyda Chanolfan Iechyd Bae Colwyn.

Penderfynwyd nodi'r diweddariad ac ysgrifennu at feddygfeydd Rysseldene a Rhoslan i ofyn a fwriedir ymestyn neu i wella'r gwasanaethau ar gyfer y safle rhanedig newydd.

34/15 Ymholiad am Ddigwyddiad:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymholiad a dderbyniwyd parthed trefnu digwyddiad lleol (cystadleuaeth cerflunio tywod), a chopi o'i hymateb, gan danlinellu'r cyllid grant oedd ar gael am y fath yma o ddigwyddiad. Fe nodwyd bod y Clwb Rotari lleol ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o drefnu digwyddiad o'r fath.

35/15 Ymddiriedolaeth Pier Fictoria Colwyn (YPFC):

Rhoddodd y Cynghorydd D. Porter a'r Clerc adroddiad byr ar lafar yn dilyn y cyhoeddiad diweddar gan Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL), ac fe gyflwynwyd copi o'r llythyr penderfyniad gan CTL er gwybodaeth. Datganodd nifer o Gynghorwyr eu hanfodlonrwydd gyda'r diffyg cefnogaeth gan GBS Conwy i'r cais. Fe nodwyd bod cynrychiolwyr CBS Conwy wedi cyfarfod cynrychiolwyr YPFC a'r Cyngor Tref yn ddiweddar ac fe gynigiwyd cyfarfod dilynol unwaith i'r grŵp dderbyn adborth mwy manwl gan CTL ac wedi iddynt ystyried y camau nesaf.

Penderfynwyd disgwyl am ganlyniad y cyfarfod rhwng aelodau'r Grŵp Llywio (YPFC a'r Cyngor Tref) gyda'r Swyddog o CTL fel yr argymhellwyd gan y Clerc.

36/15 Gohebiaeth Arall:

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a. Newyddion Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy - Rhifyn y Gwanwyn 2015
- b. Agenda cyfarfod Cyd Bwyllgor Rheoli Theatr Colwyn sydd i'w gynnal ar 29^{ain} Mai
- c. Rhifyn Mai 2015 – 'Clerks & Councils Direct'.

37/15 Cynllunio:

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBS Conwy i'w ystyried fel y manylir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn..

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y gwelir yn Atodlen hwynnw.

- b. *Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy am y cyfnodau 13/4/15 i 10/5/15 a 11/5/15 i 24/5/15.*

- c. Cyflwynodd y Clerc copi o LDP33 – Briff Datblygu Fferm Dinerth Hall, i'w ystyried.

Penderfynwyd cefnogi a nodi'r Briff Datblygu, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer chwarae ar y safle a chyfraniad tuag at gam sylfaenol gwasanaethau addysg, ac i ysgrifennu at Swyddog Polisi Cynllunio Strategol i holi a roddwyd unrhyw ystyriaeth i roi mwy o bwysedd ar y gwasanaethau iechyd lleol (yn arbennig meddygfeydd teulu) mewn polisiau cynllunio sy'n ymwneud a datblygiadau preswyl mawr yn debyg i hwn.

- ch. Cyflwynodd y Clerc copi o'r diweddariad mwyaf cyfoes am Fesur Cynllunio (Cymru). Fe nodwyd bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnal sesiwn hyfforddi ar Gynllunio i Gynghorau Tref a Chymuned yn Neuadd y Dref yng Ngorffennaf a bydd mwy o fanylion ar gael yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

38/15 Ceisiadau am Drwyddedau:

Fe nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau diweddar am drwyddedau a gofnodwyd ar gyfer ardal Bae Colwyn:

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.35 pm

..... Cadeirydd